
Gweinyddiaeth Cyfiawnder

# Datganiad Tryloywder ar Gaethwasiaeth Fodern 2020 - 2021



# Cynnwys

Rhagair gan yr Arglwydd Ganghellor, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder a'r Dirprwy Brif Weinidog 3

Adran 1 4

Strwythur sefydliadol a chadwyni cyflenwi

Adran 2 8

Polisïau ar gaethwasiaeth fodern

Adran 3 10

Asesu risg a diwydrwydd dyladwy

Adran 4 16

Hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth

Adran 5 19

Gwella parhaus

Adran 6 21

Cymeradwyo

Atodiad A 22

Sefydliadau o Fewn Cwmpas

# Rhagair gan yr Arglwydd Ganghellor, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder a'r Dirprwy Brif Weinidog



Ein pwrpas yw darparu system gyfiawnder gadarn ac effeithiol sy'n gwasanaethu pawb – yn enwedig y bobl fwyaf bregus. Dyna pam y ceisiwn warchod yn well rhai o'r bobl a ddioddefodd y trawma mwyaf yn ein cymdeithas drwy ein datganiad caethwasiaeth fodern cyntaf.

Nid oes gan yr ymarfer dychrynllyd hwn, a nodweddir gan drais a chamddefnyddio pŵer i ecsbloetio ac amddifadu pobl o'u hurddas a'u rhyddid, unrhyw le mewn byd modern. Mae gan bob adran o'r llywodraeth gyfrifoldeb i warchod gweithwyr bregus, a gyda thros fil o gontractau a 700 o gyflenwyr yn gysylltiedig â'r MoJ, cymerwn y cyfrifoldeb hwn o ddifrif. Rydym eisoes wedi gwneud cynnydd a gweithio i godi ymwybyddiaeth ond mae mwy i'w wneud i gryfhau hyn a gwarchod a helpu dioddefwyr a goroeswyr yn well.

Mae'r datganiad hwn yn egluro sut y bydd yr MoJ yn gwarchod rhag caethwasiaeth fodern yn ein cadwyni cyflenwi a'n gweithrediadau. Mae'n cadarnhau ein hymrwymiad i adnabod a lleihau'r risg o ecsbloetio, a'n hymrwymiad parhaus i wella mwy o hyd.

Byddwn yn parhau i weithio'n ddiflino i roi stop ar y sathru difrifol hyn ar hawliau dynol drwy weithredu rhaglen waith gadarn i drechu'r broblem ble bynnag y mae'n digwydd.

Adran 1

# Strwythur sefydliadol a chadwyni cyflenwi


Mae'r adran hon yn disgrifio strwythur sefydliadol yr MoJ, y llywodraethu mewnol sy'n hwyluso'r gwaith o atal caethwasiaeth fodern yn ein gweithrediadau, ac yn tynnu sylw at ehangder ac amrywiaeth ein cadwyn gyflenwi.

Mae'r MoJ yn adran bwysig yn y llywodraeth ac wrth galon y system gyfiawnder. Mae'r MoJ yn gyfrifol am wasanaethau cyhoeddus hanfodol sy'n cyflawni ein hamcanion strategol: diogelu'r cyhoedd rhag troseddwyr difrifol, gwella diogelwch a seciwriti yn ein carchardai, lleihau aildroseddu a rhoi mynediad diymdroi at gyfiawnder. Mae Cynllun Cyflawni Canlyniadau'r MoJ yn disgrifio blaenoriaethau ac amcanion allweddol yr MoJ ar gyfer 2021/22. Er yn cydnabod ein rôl a'n hymrwymiadau, byddwn hefyd yn gweithio gyda rhannau eraill o'r setor cyfiawnder ehangach (Ffig.1) fel rhan o gyflawni ein hymrwymiadau.

Mae ein datganiad agoriadol yn berthnasol i grŵp yr MoJ, gan gynnwys ein hasiantaethau: Gwasanaeth Prawf a Charchardai EM (HMPPS), Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM (HMCTS) a'n cyrff hyd braich y darparwn wasanaethau craidd iddynt, gan gynnwys adnoddau cyfreithiol, masnachol a dynol. Mae'r MoJ hefyd yn caffael ar ran Ysgrifennydd Gwladol Cymru ac felly mae'r adran honno hefyd o fewn cwmpas ein datganiad. Mae'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (LAA), ein corff hyd braich mwyaf o ran cyllideb, yn cyhoeddi ei datganiad ei hun ar gaethwasiaeth fodern oherwydd ei bod yn caffael rhai o'i gwasanaethau ei hun. Rhoddir mwy o wybodaeth am ein cyrff hyd braich (gan gynnwys rhai gyda chyllideb o dros £36m) ac am Swyddfa Cymru yn Atodiad A.

Mae'r MoJ yn gyfrifol am wasanaethau cyhoeddus hanfodol sy'n cyflawni ein nodau strategol o ddiogelu'r cyhoedd rhag troseddwyr difrifol, offenders,gwella diogelwch a seciwriti ein carchardai, lleihau aildroseddu a rhoi mynediad diymdroi at gyfiawnder.

Ffigwr 1: Strwythur yr MoJ




## Llywodraethu Mewnol ar Wrth-Gaethwasiaeth

Mae'r Grŵp Arwain Caethwasiaeth Fodern, wedi'i gadeirio gan y Cyfarwyddwr Gwerth Cymdeithasol a Chyfrifoldeb Corfforaethol, yn cwrdd yn fisol gan ddod ag arweinwyr masnachol, gweithrediadau, Adnoddau Dynol, polisi, cyfreithiol a chyfathrebu at ei gilydd i gefnogi ymdrechion i atal y risg o gaethwasiaeth fodern yng nghadwyni cyflenwi'r MoJ. Mae'r Grŵp yn helpu i adnabod unrhyw fylchau a mesurau cymesur y gellid eu cymryd i godi ymwybyddiaeth a chryfhau mesurau caethwasiaeth fodern yr MoJ. Mae'r Grŵp yn arwain ar sefydlu amcanion corfforaethol yr MoJ ar gaethwasiaeth fodern, wedi'i gynorthwyo gan y Gweithgor Caethwasiaeth Fodern (wedi'i arwain gan y Gyfarwyddiaeth Fasnachol a Rheoli Contractau) sydd hefyd yn cyfarfod yn fisol

Cyfarwyddwr Gwerth Cymdeithasol a Chyfrifoldeb Corfforaethol yr MoJ sy'n bennaf gyfrifol am wreiddio dull strategol o weithredu ac am gyhoeddi'r Datganiad, gan gynrychioli'r MoJ fel ein heiriolwr Gwrth-Gaethwasiaeth. Bydd y Grŵp Arwain Caethwasiaeth Fodern yn parhau i gwrdd, yn dilyn cyhoeddi ein datganiad cyntaf, i fonitro cynnydd gyda'r meysydd a nodir i fod angen gwelliannau parhaus.

Mae'r MoJ yn ymgysylltu â'r Swyddfa Gartref drwy gyfarfodydd yr Eiriolwr Gwrth-Gaethwasiaeth a'r Grŵp Polisi a Gweithredu Caethwasiaeth Fodern.

Rydym yn ymrwymedig i gaffael mewn ffordd deg, foesol a chyfrifol ac yn gweithio tuag at adnabod a lliniaru yn erbyn y risg bosib bod caethwasiaeth fodern yn digwydd yn ein cadwyni cyflenwi.

## Y Gyfarwyddiaeth Fasnachol a Rheoli Contractau (CCMD)

Gyda dros 370 o staff, mae'r CCMD yn rhoi cyngor masnachol arbenigol i gynorthwyo gyda darparu gwasanaethau cyfiawnder rheng flaen, gan gaffael a rheoli tua £3,950m o wariant contract drwy ein contractau trydydd parti pob blwyddyn. Mae'r CCMD yn gyfrifol am waith masnachol ar draws y tair prif asiantaeth (HMPPS, HMCTS a'r LAA) yn ogystal â'r cyrff hyd braich, Swyddfa Cymru, swyddogaethau a phroffesiynau.  Gyda dros 700 o gyflenwyr yn gwasanaethu dros 117 o garchardai, yn ogystal â 300 o lysoedd a thribiwnlysoedd, gall sicrhau lefel uchel o dryloywder mewn cadwyni cyflenwi byd-eang cynyddol gymhleth fod yn anodd. Mae'r CCMD wedi dechrau'r broses o asesu'r risg a gyflwynir gan gontractau er mwyn deall beth sydd angen mwy o ffocws.


Mae gan yr MoJ dros 1,200 o gontractau wedi eu rhannu'n dri math sef aur, arian ac efydd. Fel arfer mae contractau aur yn fwy a hirach am waith a gwasanaethau cymhleth neu hanfodol.

Mae contractau arian yn tueddu i fod yn bwysig ond nid yn rhai am nwyddau a gwasanaethau hanfodol. Fel arfer mae contractau efydd yn llai a symlach i ddarparu gwaith a gwasanaethau heb fod yn hanfodol. Nid oes angen dosbarthu pob contract, er enghraifft grantiau.

> Gyda dros 700 o gyflenwyr yn gwasanaethu dros 117 o garchardai, a 300 o lysoedd a thribiwnlysoedd, gall fod y anodd sicrhau lefel uchel o dryloywder mewn cadwyni cyflenwi byd-eang a chynyddol gymhleth.

Ffigwr 2: Crynodeb o Gontractau'r MoJ

Cyfanswm y contractau a ddosbarthir yn rhai Aur, Arian ac Efydd (Awst 2021):



## Cadwyn Gyflenwi'r MoJ

Mae'r MoJ yn caffael ystod o nwyddau a gwasanaethau mewn sectorau fel adeiladu, rheoli cyfleusterau, arlwyo, rheoli fflyd, caledwedd TGCh a thrafnidiaeth teithwyr, gan gannoedd o gyflenwyr (a ddiffiniwn fel gwariant trydydd parti) ar draws y DU a thrwy'r byd. Rydym yn ymrwymedig i gaffael mewn ffordd deg, foesol a chyfrifol ac yn ac yn gweithio tuag at adnabod a lliniaru yn erbyn y risg bosib bod caethwasiaeth fodern yn digwydd yn ein cadwyni cyflenwi. Rydym yn cydnabod ein bod ar gychwyn siwrne gyda'n cadwyn gyflenwi, un y ceisiwn ei gwella o flwyddyn i flwyddyn.

Yn ogystal â'n gwaith yn asesu risg pob un o'n contractau, byddwn hefyd yn datblygu gweithdrefnau i gynorthwyo trafod caethwasiaeth fodern rhwng ein rheolwyr contractau â'n cyflenwyr.

Yn 2020-21, roedd gwariant trydydd parti'r MoJ yn oddeutu £5,500m, ac o'r swm hwn mae £1,550m yn cael ei ddosbarthu gan yr LAA ar ffurf taliadau i gyfreithwyr a bargyfreithwyr sy'n rhoi cyngor hynod bwysig i bobl gymwys o dan ein cynllun cymorth cyfreithiol. Rhennir y gweddill, £4,000m, rhwng arian sy'n cael ei wario'n uniongyrchol gan ein cyrff hyd braich (£67m) ac arian sy'n cael ei wario ar ran yr MoJ gan y CCMD (tua £3,950m).

Mae'r ffeithlun isod yn dangos pum maes gwariant mwyaf yr MoJ yn ôl categori.

Ffigwr 3: Pum maes gwariant mwyaf yr MoJ yn ôl categori:




Yn ôl gwybodaeth a gofnodir ar borth cofrestru cyflenwyr yr MoJ, lleolir y rhan fwyaf o'n cyflenwyr yn y DU. Fodd bynnag, yr hyn sydd fwy o ddiddordeb yw deall ble drwy'r byd y lleolir isgontractwyr sy'n cyflenwi gwasanaethau i'n prif gontractwyr, o gofio'r risg bosib bod caethwasiaeth fodern yn gysylltiedig â ffatrïoedd ac unedau gweithgynhyrchu.

Yn y flwyddyn i ddod, byddwn yn ystyried cyfleoedd i gasglu'r wybodaeth yma gan ein cyflenwyr strategol a gyda chontractau a aseswyd i fod yn cyflwyno risg uwch o gaethwasiaeth fodern.

# Adran 2
# Polisïau ar gaethwasiaeth fodern

Mae'r adran yma'n trafod y polisïau a'r mesurau sydd gan yr MoJ yn eu lle i sicrhau bod risgiau caethwasiaeth fodern yn cael eu hadnabod a'u rheoli ar lefel sefydliadol ac yn ein cadwyni cyflenwi.

## Polisïau ac Ymrwymiadau

Yn ogystal â rhoi prosesau cadarn a diwydrwydd dyladwy yn eu lle, mae mynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern yn un o werthoedd craidd a gwir bryder i'n hadran. Rydym yn benderfynol o sicrhau nad oes lle i gaethwasiaeth fodern yn ein corff na mewn unrhyw ran o'n cadwyn gyflenwi.

Mae'r MoJ yn gweithio'n agos ag adrannau eraill i fynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern gan gefnogi gweithredu polisïau traws-lywodraeth, yn cynnwys y rhai a restrir yn y Nodyn Polisi Caffael (PPN) 05/19 a Mynd i'r Afael â Chaethwasiaeth Fodern yng Nghadwyni Cyflenwi'r Llywodraeth.  Mae'r PPN wedi'i gylchredeg yn eang i gydweithwyr yn y CCMD; cynhaliwyd digwyddiadau a drefnwyd gan Wasanaethau Masnachol y Goron ar asesu risg contractau; mae'r Sefydliad Siartredig Prynu a Chyflenwi (CIPS) wedi darparu hyfforddiant, a'r CCMD wedi rhedeg sesiynau pwrpasol. Mae tîm Safonau Masnachol y CCMD yn dehongli a chyfathrebu polisïau newydd ac wedi eu diweddaru i'r holl staff masnachol yn rheolaidd.

Ôl-ddilynir hyn gan sesiynau cinio a dysgu, lle bo'n briodol.

## Canllawiau Masnachol

Mae'r CCMD yn ei gwneud yn orfodol i'r holl staff, masnachol neu fel arall, gwblhau hyfforddiant e-ddysgu ac asesu moeseg blynyddol gan CIPS, sy'n cynnwys adran sylweddol ar gaethwasiaeth fodern. Mae caethwasiaeth fodern hefyd yn rhan o broses gynefino'r CCMD i bob aelod newydd o staff, sy'n cynnwys rhai o'r meysydd yn y PPN.

Ynghyd â hyn, mae Llawlyfr Rheoli Contractau'r CCMD – sef y prif ganllaw i dimau masnachol – wedi'i ddiweddaru i ymgorffori'r PPN i gynorthwyo timau gyda chaffael o ddydd i ddydd. Mae'r Llawlyfr yn cydnabod bod ymgysylltu'n gynnar ac effeithiol â'r farchnad yn helpu i gadarnhau pa mor aeddfed yw'r farchnad wrth ddelio â materion caethwasiaeth fodern. Mae'n nodi pa mor bwysig yw deall pa fesurau sydd gan gyflenwyr eisoes yn eu lle i adnabod problemau a rheoli risg, a'r gofyniad bod angen cynnwys cymalau penodol mewn contractau gyda risg uchel o gaethwasiaeth fodern i gryfhau ein sefyllfa gyda chontractau.

Ymdrinnir â chaethwasiaeth fodern mewn gwahanol gamau, o'r cam cyn-gaffael i gaffael ac yna rheoli'r contract. Rhaid i gyflenwyr sy'n bidio am gontractau'r MoJ ddangos tystiolaeth o gwrdd â gofynion Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 sy'n cynnwys cadarnhau a oes angen iddynt gyhoeddi datganiad caethwasiaeth fodern a chydymffurfio â gofynion adrodd blynyddol.

Yn dilyn rhoi'r contract, mae'r Llawlyfr yna'n nodi y dylid gwahodd cyflenwyr lle bo'n briodol i gwblhau'r Offeryn Asesu Caethwasiaeth Fodern (MSAT).

## Deddfwriaeth

O ran deddfwriaeth, mae Rheoliadau Contractau Cyhoeddus (PCR) 2015 yn darparu fframwaith ar gyfer pob caffael cyhoeddus sy'n digwydd yn y DU. Mae'n cynnwys saith Egwyddor Caffael sy'n gofyn bod awdurdodau cyhoeddus yn hyrwyddo mwy o dryloywder ynghyd â pheidio â gwahaniaethu a thrin cyflenwyr i gyd yn gyfartal.

## Polisi Adnoddau Dynol

Mae gweision sifil wedi eu rhwymo gan gôd y Gwasanaeth Sifil sy'n cynnwys gwerthoedd craidd: uniondeb, gonestrwydd, gwrthrychedd a bod yn ddiduedd. Os gofynnir i unigolyn wneud rhywbeth, neu os ydynt yn ymwybodol o rywbeth a wneir gan rywun arall, y maen nhw'n credu sy'n anghywir, anghyfreithlon neu a allai beryglu eraill neu dorri cod y Gwasanaeth Sifil, medrant leisio eu pryder drwy ddilyn polisi 'Codi Pryder' yr MoJ. Mae swyddogion penodedig yn ystyried yr achosion hyn a'r ymateb priodol, gan gynnwys a oes angen atgyfeirio'r mater.

Ffocws penodol Polisi Diogelu'r MoJ yw pryderon yn ymwneud â bod plentyn neu oedolyn bregus yn cael niwed neu mewn perygl o gael niwed, gan gynnig arweiniad ar sut i leisio pryder.

Mae gan ein hadran rôl bwysig i'w chwarae mewn mynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern, nid yn unig drwy ein contractau masnachol ond hefyd drwy waith pwysig ein hasiantaethau darparu, HMCTS a HMPPS. Yn y rolau hyn, rydym yn goruchwylio'r rhai a gafwyd yn euog o droseddau caethwasiaeth fodern a hefyd yn atgyfeirio achosion at sefydliadau ymatebwr cyntaf os oes gan staff bryderon am gaethwasiaeth fodern. Mae'r gwaith hwn yn aml-ochrog gan amrywio o rôl ein gwasanaeth prawf yn y llysoedd wrth baratoi adroddiadau cyn-ddedfrydu, i staff prawf a charchardai'n atgyfeirio at gyrff ymatebwr cyntaf a rhoi cymorth. Mae'n digwydd yn ein carchardai ieuenctid, merched a dynion, a hefyd yn ein gwaith yn y gymuned wrth oruchwylio pobl. Rhoddir mwy o fanylion yn adran 4.

Mae'r adran yn ymrwymedig i sicrhau nad oes lle i gaethwasiaeth fodern yn ein sefydliad na mewn unrhyw ran o'n cadwyn gyflenwi. Yn ogystal â rhoi prosesau cadarn a diwydrwydd dyladwy yn eu lle, mae'n un o'n gwerthoedd craidd a phryder gwirioneddol i'n hadran.department.

Adran 3

# Asesu risg a diwydrwydd dyladwy

Mae'r adran hon yn cynnwys data a dadansoddiad o'n hasesiad risg o gontractau gan ddisgrifio sut y ceisiwn gryfhau'r gwaith hwn drwy ymgysylltu â'n cyflenwyr.

Ym marn yr MoJ, gallai risg o gaethwasiaeth fodern fod yn gysylltiedig â chontractau o unrhyw werth bron, p'un ai yw'r cadwyni cyflenwi hynny yn y DU neu dramor. Am y rheswm hwn, bydd yr MoJ yn adolygu ac asesu risg pob contract (gan ddechrau gyda'n contractau aur, yna arian ac yna efydd), drwy ddefnyddio Offeryn Blaenoriaethu'r Swyddfa Gartref (HOPT) i ddeall a blaenoriaethu'r risg bod caethwasiaeth fodern yn digwydd. Dyfeisiwyd yr HOPT i gynorthwyo adrannau'r llywodraeth i wneud asesiad risg 'ysgafn' o gysylltiad contract â chaethwasiaeth fodern, a helpu i benderfynu pa gyflenwyr i'w gwahodd i gwblhau'r MSAT a chymryd mesurau diwydrwydd dyladwy caethwasiaeth fodern eraill.

Ar gyfer pob contract newydd wedi'i ddyfarnu o fis Medi 2021 ymlaen, rhaid i'r rheolwr contractau masnachol asesu risg y contract o fewn tri mis i ddyddiad dechrau'r contract. Lle mae contract yn cael ei adnabod i fod yn risg uchel neu ganolig, gofynnir i gyflenwr y contract gwblhau'r MSAT. Offeryn i adnabod a rheoli'r risg o gaethwasiaeth fodern yw'r MSAT sy'n helpu sefydliadau i ddeall lle gallai fod risg o gaethwasiaeth fodern a helpu cyrff cyhoeddus i weithio mewn partneriaeth i warchod gweithwyr yn well a lleihau'r risg y gallent gael eu hecsbloetio yn eu gweithrediadau a chadwyni cyflenwi.

Ar sail yr ymatebion a roddir yn y MSAT, cynhyrchir sgoriau perfformiad i fesur perfformiad ym mhob rhan o'r asesiad, ynghyd â chyfanswm sgôr cyffredinol. Gellir defnyddio'r sgôr hwn i adnabod cryfderau a gwendidau ac fel meincnod i ddatblygu a gwella rhwng asesiadau.

Mae'r MoJ yn y broses o ddiweddaru canllawiau a chyngor i reolwyr contractau fel eu bod yn glir o ran eu cyfrifoldeb i drafod mesurau caethwasiaeth fodern y MSAT yn rheolaidd â'r cyflenwr.

Mae staff masnachol hefyd yn asesu risg bosib caethwasiaeth fodern yn eu categorïau hwythau, drwy ddealltwriaeth o'r farchnad gyflenwi a chynnal trafodaethau cyn-gaffael â chyflenwyr. Lle bo'n briodol, mae staff masnachol yn cynnwys Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPI) cytundebol perthnasol, er enghraifft yn y broses o adeiladau carchardai newydd.

I sicrhau y gallwn fonitro cydymffurfio parhaus, bydd data blaenoriaethu risg (uchel, canolig neu isel) yn cael ei gasglu drwy ein system e-gaffael, gan hefyd nodi a yw'r rheolwr contract wedi gofyn am i MSAT gael ei gwblhau. Bydd y data hwn yn cael ei fonitro'n chwarterol gan yr Arweinydd Gwerth Cymdeithasol.

Bydd yr adran yn trafod unrhyw ddigwyddiad o gaethwasiaeth fodern yn ein cadwyni cyflenwi fesul achos, ac yn ymchwilio a gweithio'n rhagweithiol mewn partneriaeth â'r cyflenwr i ddeall a cheisio datrys y sefyllfa. Byddwn yn adolygu ein prosesau presennol ar gyfer gweithwyr yn ein cadwyni cyflenwi sydd efallai eisiau lleisio pryder am gaethwasiaeth fodern ac yn ymgysylltu â'n tîm masnachol a'n cyflenwyr i gryfhau'r drefn honno.

## Canfyddiadau asesiadau risg

Hyd yma, mae pob un o'n contractau Aur wedi derbyn asesiad risg a rhoddir dadansoddiad yn Ffigwr 4. Ein bwriad yw cwblhau asesu risg ein holl gontractau arian ac efydd dros yr hydref 2021. Gan edrych i'r dyfodol, bydd pob contract newydd yn cynnwys asesiad risg o gaethwasiaeth fodern fel rhan annatod o'r broses gaffael.

I gwblhau'r asesiad risg, rydym wedi mabwysiadu'r HOPT fel bod adrannau'r llywodraeth yn gallu gwneud asesiad risg 'ysgafn' a chyson o gaethwasiaeth fodern ar gyfer pob un o'u contractau.

Mae cwblhau'n rhoi dyfarniad yn erbyn y pum categori risg allweddol, gyda chyflenwyr a sgoriwyd yn risg uchel neu ganolig yn gorfod cwblhau'r MSAT os na wnaed hynny eisoes (er enghraifft yn dilyn cais gan adran arall o'r llywodraeth). Hefyd, gallai'r rheolwr contractau masnachol gyflawni mesurau diwydrwydd dyladwy eraill yng nghyswllt caethwasiaeth fodern, neu gytuno ar fesurau i roi sylw i risgiau penodol.

Mae'r asesiad HOPT yn asesu pum maes risg allweddol sydd gyda'i gilydd yn rhoi sgôr risg cyffredinol i bob contract. Y meysydd hyn yw:

1. Math o ddiwydiant
2. Lleoliad y gadwyn gyflenwi
3. Natur y gweithlu
4. Model y gadwyn gyflenwi
5. Y cyd-destun gweithredol

Rhoddir crynodeb o asesiadau contractau aur yn Ffigwr 4:

Ffigwr 4: Crynodeb o'r contractau aur a aseswyd i fod â risg uchel, canolig ac isel

| Sgôr risg caethwasiaeth fodern | Nifer y contractau | % o'r contractau | Nifer y cyflenwyr |
|---|---|---|---|
| Risg isel (sgôr rhwng 0-2) | 71 | 60% | 44 |
| Risg ganolig (sgôr o 3) | 9 | 8% | 9 |
| Risg uchel (sgôr rhwng 4-5) | 38 | 32% | 31 |
| Cyfanswm | 118 | 100% | 79 o wahanol gyflenwyr[1] |

1 Nid yw'r golofn hyn yn adio i roi cyfanswm oherwydd bod 79 o wahanol gyflenwyr. O'r rhain, roedd gan 20 nifer o gontractau ac roedd gan 5 o'r 20 gontractau gyda chymysgedd o sgoriau risg uchel, canolig ac isel.

I gyd, aseswyd 79 o gyflenwyr yng ngham cychwynnol yr ymarfer, ac roedd gan 20 o'r rhain nifer o gontractau aur gyda'r MoJ. O'r 20 hyn, roedd gan 5 cyflenwr gontractau gyda gwahanol sgoriau risg, ar sail natur amrywiol y nwyddau a'r gwasanaethau. Er enghraifft, mae un cyflenwr yn darparu nwyddau electronig o dan un contract, a gwasanaethau proffesiynol o dan gontract arall. Mae darparu nwyddau electronig yn dibynnu ar gwmni gweithgynhyrchu a leolir mewn lleoliad risg uchel, gan felly wneud y contract yn risg uchel. Fodd bynnag, darperir y gwasanaethau proffesiynol yn llwyr o fewn y DU gan ddibynnu ar lafur medrus, ac mae felly'n risg cymharol is.

Ar sail dadansoddi'r contractau, cafodd nifer o dueddiadau cyson eu nodi yng nghategorïau sgoriau risg y contractau. Roedd y rhan fwyaf o'r asesiadau risg uchel mewn diwydiannau fel gweithgynhyrchu, electroneg (TG) a gwasanaeth (gan gynnwys rheoli cyfleusterau), a'r rhan fwyaf o'r rhai risg isel yn gontractau am wasanaethau proffesiynol. Fel arfer, darperir contractau gwasanaethau proffesiynol gan staff yn y DU gyda chadwyni cyflenwi mwy syml heb ddibynnu ar nwyddau neu lafur o leoliadau risg uchel.

Of the 47 contracts deemed medium (9) or high-risk (38), it was assessed that:

- 42 o'r contractau'n ystyried bod rhan o'r gadwyn gyflenwi'n gweithredu o leoliad risg uchel. Fel arfer, mae'n ymwneud â lleoliad cyflenwad eilaidd yn hytrach na chynradd, er enghraifft mae caledwedd electronig a ddarperir i'r MoJ yn y DU yn dibynnu ar weithgynhyrchu yn Tsieina a Thaiwan. Lle'r oedd cynhyrchion neu wasanaethau'n cael eu gwneud neu gaffael o wledydd risg uchel (fel India, Tsieina neu Rwsia2) roedd y tirlun economaidd ac amgylcheddol fel arfer yn rhoi sgôr risg uchel i'r ochr weithredol oherwydd ffactorau fel: cyfreithiau llafur anfoddhaol a rheoliadau heb lawer neu ddim gorfodaeth ohonynt, a lefel uchel o dlodi a diweithdra gan arwain at lafur rhad a nifer uchel o weithwyr bregus yng ngham nesaf y gadwyn gyflenwi;
- 45 yn ystyried bod model y gadwyn gyflenwi'n ffactor risg, gyda 40 allan o'r 45 yn nodi tystiolaeth o berthynas is-gontractio gymhleth (gyda'r cymhlethdod yn ymwneud naill ai â maint neu strwythur y berthynas). Mwya'n byd o ran maint a chymhlethdod yw'r gadwyn gyflenwi, yr anoddaf yw i'n cyflenwyr ddeall yr amodau i weithwyr yn eu cadwyni cyflenwi, sy'n cynyddu'r risg o gaethwasiaeth fodern. Ystyriwyd bod contractau gyda pherthynas is-gontractio llai cymhleth, fel gwasanaethau dylunio proffesiynol yn defnyddio ymgynghorwyr tân arbenigol i helpu i ddylunio carchardai o gategori penodol, yn risg isel;
- 38 o'r contractau'n ystyried bod natur y gweithlu'n ffactor risg, gyda rhaniad cyfartal rhwng contractau a ystyriwyd i fod yn dibynnu ar lafur sgiliau isel neu ddi-sgiliau neu waith corfforol trwm, a chontractau'n ymwneud â nifer uchel o weithwyr dros dro a / neu asiantaeth. Mae gwaith sy'n talu'n wael ac isel ei werth (llafur sgiliau isel neu ddi-sgiliau) a mwy o ansicrwydd gwaith (gwaith yn defnyddio nifer uchel o weithwyr dros dro a / neu asiantaeth) yn aml yn cael ei wneud gan weithwyr bregus, sy'n cynyddu'r risg o gaethwasiaeth fodern yn ein cadwyni cyflenwi.

Yn gyffredinol, roedd rheolwyr contractau'n ystyried bod eu cyflenwr cynradd i fod yn risg isel o ran caethwasiaeth fodern, oherwydd bod y rhan fwyaf o gyflenwyr cynradd yn darparu o'r DU yn unig, ond roedd ystyried cyflenwadau ail-haen wedi creu dangosyddion risg uchel. Nid oedd yr asesiad risg o gontractau aur wedi adnabod unrhyw achosion caethwasiaeth fodern hanesyddol penodol yn y portffolio.

Yn gyffredinol, roedd rheolwyr contractau'n ystyried bod eu cyflenwr cynradd i fod yn risg isel o ran caethwasiaeth fodern, oherwydd bod y rhan fwyaf o gyflenwyr cynradd yn darparu

2 Er y gall caethwasiaeth fodern ddigwydd yn unrhyw le yn y byd, credir bod y risg yn uwch mewn rhai gwledydd. Mae Adran Lafur yr Unol Daleithiau'n cynhyrchu rhestr flynyddol o wledydd risg uwch lle gallai nwyddau fod yn cael eu cynhyrchu gan lafur plant neu lafur gorfodol (wele https://www.dol.gov/sites/dolgov/files/ILAB/2020ListofGoodsExcel.xlsx). Yn ystod y broses blaenoriaethu risg, roedd rheolwyr contractau'r MoJ wedi ystyried a oeddent yn gwybod bod neu'n disgwyl i'r cyflenwr neu gadwyn gyflenwi'r cyflenwr weithredu mewn unrhyw un o'r gwledydd risg uwch hyn.

o'r DU yn unig, ond roedd ystyried cyflenwadau ail-haen wedi creu dangosyddion risg uchel. Nid oedd yr asesiad risg o gontractau aur wedi adnabod unrhyw achosion caethwasiaeth fodern hanesyddol penodol yn y portffolio. Ar gyfer pob un o'r 47 contract a ystyriwyd i fod yn risg ganolig neu uchel, mae'r rheolwr contractau wedi derbyn neu yn y broses o ofyn i'r cyflenwr gwblhau MSAT. Mae'r 47 contract yma'n ymwneud â phrynu ystod o nwyddau a gwasanaethau (wele'r tabl isod), gyda'r categorïau mwyaf cyffredin yn wasanaethau carchar (17) a darparu meddalwedd a / neu gymorth cyfathrebu (10).

Yn gyffredinol, mae'r categori gweithredu gwasanaethau carchar yn ymwneud â chontractau rheoli cyfleusterau sydd fel arfer yn risg uwch oherwydd tarddiad y deunyddiau (e.e. gwydr) a phresenoldeb perthnasoedd is-gontractio sy'n ychwanegu at gymhlethdod y gadwyn gyflenwi. Fel arfer, mae darparu meddalwedd a / neu gymorth cyfathrebu hefyd yn ymwneud â darparu caledwedd electronig sy'n aml yn cael ei weithgynhyrchu mewn lleoliadau risg uwch (e.e. Tsieina a Thaiwan).

| Categorïau contractau risg ganolig / uchel | Nifer y contractau | % o'r contractau |
|---|---|---|
| Gwasanaethau carchar | 17 | 36% |
| Meddalwedd a / neu gymorth cyfathrebu | 10 | 21% |
| Nwyddau a gwasanaethau eraill | 8 | 17% |
| Adeiladau llys | 7 | 15% |
| Gwaith adeiladu neu gynnal a chadw arall | 5 | 11% |
| Cyfanswm | 47 | 100% |

## Asesiadau MSAT a gwblheir

Hyd at Fehefin 2021, roedd 38 o gyflenwyr yn darparu 161 o gontractau i'r MoJ wedi cwblhau'r MSAT. Mae'n cynnwys 26 contract aur, 24 arian a 108 o gontractau efydd, yn ogystal â thri sydd heb eu categoreiddio eto.

Mae'r MSAT yn sgorio perfformiad cyflenwyr ar sail cerdyn sgorio gwyrdd, oren, melyn a choch ar draws nifer o feysydd risg, gan roi cyfanswm sgôr risg ar y diwedd. O'r 38 o ganlyniadau cyflenwyr MSAT a ddadansoddwyd:

- y cyfanswm sgôr risg mwyaf cyffredin oedd gwyrdd, yna oren – nid oedd gan yr un cyflenwr gyfanswm sgôr risg 'coch'
- yr is-feysydd 'llywodraethu' a 'rheoli risg' a dderbyniodd y rhan fwyaf o sgoriau gwyrdd ar draws yr holl gyflenwyr
- rhoddwyd sgôr oren i'r is-feysydd 'diwydrwydd dyladwy' a 'dangosyddion perfformiad allweddol' yn bennaf
- rhoddwyd sgoriau cymysg i 'hyfforddiant, polisïau a gweithdrefnau' a 'cyd-destun busnes' ar draws adroddiadau MSAT pob un o'r cyflenwyr

Dadansoddir ymatebion y cyflenwyr yn erbyn ymarfer gorau hefyd gan argymell meysydd ar gyfer gwella a mesurau i'w cymryd, fel bod cyflenwyr mewn sefyllfa gryfach i liniaru'r risg o gaethwasiaeth fodern.

Y mesurau oedd yn cael eu hargymell amlaf i gyflenwyr a gwblhaodd yr asesiad MSAT oedd:


| Y pedwar argymhelliad gwella mwyaf cyffredin i gyflenwyr: | Nifer y cyflenwyr gydag argymhellion |
|---|---|
| 1. Dylai eich sefydliad ystyried datblygu dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer ei bolisi ar gaethwasiaeth fodern. | 17 (44%) |
| 2. Dylai eich sefydliad ystyried rhoi Cytundeb Lefel Gwasanaeth (SLA) yn ei le i gyflenwyr ei ddilyn os yw achos neu amheuaeth o achos o gaethwasiaeth fodern yn digwydd. | 17 (44%) |
| 3. Dylai eich sefydliad sicrhau bod ei bolisi corfforaethol ar gaethwasiaeth fodern yn cynnwys mynediad at rwymedïau, iawndal a chyfiawnder i ddioddefwyr. | 13 (34%) |
| 4. Dylai fod gan eich sefydliad brosesau yn eu lle i ymateb i adroddiadau o amheuaeth o gaethwasiaeth fodern, sy'n dilyn ymarfer da. | 11 (29%) |

| Yr argymhellion gwella mwyaf cyffredin nesaf: | Nifer y cyflenwyr gydag argymhellion |
|---|---|
| Dylai eich sefydliad ystyried caethwasiaeth fodern ym mhob cam o'i broses gaffael. | 10 (26%) |
| Dylai eich sefydliad ystyried cymryd mesurau sy'n helpu gweithwyr yn eich cadwyni cyflenwi i gael mynediad at gynrychiolaeth gyfreithiol. | 10 (26%) |
| Dylai eich sefydliad ystyried cymryd y mesurau diwydrwydd dyladwy canlynol i sicrhau nad yw gweithwyr yn eich sefydliad a'ch cadwyn gyflenwi wedi eu dal mewn caethwasanaeth dyledion. | 10 (26%) |
| Dylai eich sefydliad ystyried archwilio gweithgareddau busnes eich cyflenwyr. | 10 (26%) |
| Dylai eich sefydliad roi mesurau yn eu lle i liniaru'r risg o gaethwasiaeth fodern yn eich cadwyn gyflenwi. | 10 (26%) |

Er y gall caethwasiaeth fodern ddigwydd yn unrhyw le yn y byd, mae rhai gwledydd lle ystyrir bod y risg yn uwch. Rhoddir crynodeb o gyflenwyr yr MoJ sydd â gweithrediadau mewn gwledydd risg uchel (yn ôl Adran Lafur yr Unol Daleithiau, sy'n cynhyrchu rhestr flynyddol o nwyddau a gynhyrchir gan lafur plant neu lafur gorfodol), yn Ffigwr 5.

Mae nifer o gyflenwyr yn y broses o gwblhau eu hasesiadau MSAT a bwriedir gwahodd pob cyflenwr i rannu eu hadroddiadau MSAT. Byddwn yn parhau i adolygu, dadansoddi ac ôl-ddilyn y canfyddiadau o'r asesiadau risg hyn.

Ffigwr 5: Y pedair gwlad gyda'r risg fwyaf lle mae gan yr MoJ gyflenwyr



## Adran 4

# Hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth


Mae'r adran yma'n amlygu'r gwaith targed a gwblhawyd gan yr MoJ i godi ymwybyddiaeth, darparu hyfforddiant ac arweiniad ar gaethwasiaeth fodern a'r risgiau cysylltiedig ar draws ein sefydliad.

### Hyfforddiant masnachol

Yn 2019 fe wnaeth CCMD gwblhau ystod o hyfforddiant e-ddysgu CIPS proffesiynol a phwrpasol ar gaethwasiaeth fodern. Yn 2020/21, fe wnaeth 2017 o staff CCMD (94% o'r rhai mewn swyddi masnachol a di-fasnachol cymwys) gwblhau cwrs e-ddysgu ac asesiad CIPS mewn moeseg (sydd ag elfen sylweddol ar gaethwasiaeth fodern).

Bydd hyn yn parhau i fod yn hyfforddiant blynyddol gorfodol i'r holl staff rheoli contract a masnachol parhaol.

Ym Mehefin 2020, trefnodd CCMD sesiwn ymwybyddiaeth o Gaethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl (MSHT) gyda 87 aelod o staff wedi mynychu. Ym mis Tachwedd 2020, trefnodd Cymdeithas Gristnogol (PCF) Gwasanaeth Erlyn y Goron sesiwn wrando MSHT ar draws y MoJ, wedi'i chyflwyno gan Stop the Traffik Kent, gyda nifer dda iawn wedi mynychu.



Mae CCMD yn darparu hyfforddiant caethwasiaeth fodern i bawb sy'n ymuno o'r newydd fel rhan o'n sesiynau cynefino chwarterol. Mae'n cynnwys sesiwn 20 munud dan arweiniad un o Uwch-Reolwyr Masnachol CCMD, a'r ffocws ar Gaethwasiaeth Fodern yn PPN 05/19. Trafodir beth yw caethwasiaeth fodern, pa sectorau a chynhyrchion y mae'n effeithio fwyaf arnynt a thynnu sylw penodol at y camau ddylai timau masnachol eu cymryd i warchod rhag caethwasiaeth fodern yn ein cadwyni cyflenwi.

I'r dyfodol, bydd CCMD yn parhau i ddarparu sesiynau ymwybyddiaeth caethwasiaeth fodern fel rhan o'n cynefino, yn gorfodi cyrsiau e-ddysgu CIPS ar foeseg i rai sy'n ymuno o'r newydd, ynghyd â sesiynau adnewyddu blynyddol i staff rheoli contractau a staff masnachol parhaol ar bob lefel. Bydd CCMD hefyd yn cyflwyno cwrs e-ddysgu'r Swyddfa Gartref ar gaethwasiaeth fodern sy'n cynnwys 5 modiwl dros 2.5 awr ynghyd â sesiynau ymwybyddiaeth ychwanegol o gategorïau penodol. Bydd CCMD yn parhau i wella ein hyfforddiant a'n hymwybyddiaeth yn yr adran gaffael ac ar draws y sefydliad. Bydd staff mewn rolau masnachol yn bennaf yn cwblhau datblygiad proffesiynol parhaus ar gaethwasiaeth fodern yn y gadwyn gyflenwi.

## HMPPS

Mae HMPPS wedi lansio pecyn e-ddysgu ar Gaethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl (MSHT) i ymarferwyr sy'n gweithio mewn carchardai ac yn y gymuned. Mae'r pecyn yn trafod y gwahanol fathau o gaethwasiaeth a masnachu pobl, pa mor gyffredin ydynt yn ôl gwlad, a ble i gael cymorth ac arweiniad pellach. Gall defnyddwyr ddilyn y dolenni i ddysgu mwy am y pwnc, cwblhau gwahanol gwisiau dewisiadau ac astudiaethau achos i brofi eu gwybodaeth.

Yn 2020, rhedodd HMPPS Ymgyrch Radio Carchardai i godi ymwybyddiaeth o MSHT, gan gynnwys y dangosyddion allweddol bod rhywun wedi dioddef caethwasiaeth neu fasnachu mewn pobl, y gwasanaethau cymorth arbenigol sydd ar gael i ddioddefwyr caethwasiaeth neu fasnachu pobl, a'r llinell gymorth newydd i ddioddefwyr



Yn ystod 2020, cynhaliodd HMPPS Ymgyrch Radio Carchardai i godi ymwybyddiaeth o MSHT, gan gynnwys y dangosyddion allweddol y mae rhywun wedi dioddef caethwasiaeth neu fasnachu, y gwasanaethau cymorth arbenigol sydd ar gael i ddioddefwyr caethwasiaeth neu fasnachu a'r llinell gymorth cymorth i ddioddefwyr newydd.

Roedd yr ymgyrch yn cynnwys chwe slot hysbysebu 40 eiliad ar yr awyr 50 gwaith yr wythnos dros gyfnod o chwe mis, ac un rhaglen drafod a cherddoriaeth stiwdio 51 munud ar yr awyr dair gwaith mewn un wythnos, gydag ail wythnos o ddarlledu tair rhaglen nes ymlaen yn y cyfnod chwe mis. Er bod yr ymgyrch wedi'i hanelu'n bennaf at ddioddefwyr MSHT, credir hefyd ei bod wedi helpu i oleuo gwybodaeth staff carchardai.

Mae modiwl ar MSHT wedi'i ddatblygu a'i gynnwys yn yr hyfforddiant lefel mynediad i swyddogion carchar newydd ynghyd â llawlyfr hyfforddiant rhywedd-benodol.

Mae HMPPS wedi parhau i gael cyswllt â chydweithwyr o'r Swyddfa Gartref a Byddin yr Iachawdwriaeth, gan hwyluso cyswllt rhwng Byddin yr Iachawdwriaeth a dioddefwyr posib o MSHT mewn carchardai.

Mae Byddin yr Iachawdwriaeth hefyd wedi nodi pwysigrwydd trafod gwaith ar adsefydlu dioddefwyr MSHT mewn da bryd fel bod cymorth ar drafnidiaeth a llety'n cael ei gynllunio ar sail anghenion yr unigolyn.

Mae HMPPS wedi datblygu a gweithredu protocol uwchgyfeirio syml i wella mynediad at asesiad o dan y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol (NRM) i ddioddefwyr posib o MSHT drwy gyfathrebu â charchardai unigol cyn uwchgyfeirio at lywodraethwyr, cyfarwyddwyr grwpiau carchardai ac, yn y pen draw, i swyddfa'r Cyfarwyddwr Cyffredinol fel bo angen.

Mae mapiau proses a chanllawiau ar MSHT hefyd wedi eu cynhyrchu sy'n cynnwys gwybodaeth am yr NRM a dolen i'r pecyn e-ddysgu.0}

## HMCTS

Yn sgîl Covid-19, mae HMCTS wedi newid sut y mae llysoedd a thribiwnlysoedd yn gweithio i sicrhau eu bod yn dal i redeg yn ddiogel a rhoi mynediad at gyfiawnder i bobl fregus.0} Mae hyn yn sicrhau y gall defnyddwyr llysoedd a thribiwnlysoedd gymryd rhan mewn achosion llys heb anfantais na gwahaniaethu iddynt.

Yn Ebrill 2021 diwygiodd HMCTS y Côd Dioddefwyr i gyflwyno hawliau ehangach i ddioddefwyr bregus ac wedi eu bygwth. Diffinnir tystion wedi eu bygwth gan adran 17 Deddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999 (YJCEA), fel rhai sy'n dioddef ofn neu drallod ynglŷn â rhoi tystiolaeth mewn achos llys, gan gynnwys dioddefwyr troseddau rhywiol neu fasnachu pobl. Mae hawliau ehangach yn cynnwys darparu mesurau arbennig (fel y nodir ym Mhennod I YJCEA 1999) i hwyluso rhoi tystiolaeth neu wybodaeth ar gyfer achos troseddol.

Mae rhaglen ddysgu tywyswyr HMCTS hefyd yn cynnwys modiwl yn trafod ein rôl mewn cefnogi dioddefwyr a thystion bregus ac wedi eu bygwth.

Fel rhan o'i ymateb i Covid-19, cyhoeddodd HMCTS y cynllun gweithredu bregusrwydd (VAP) i sicrhau bod effeithiau anfwriadol ar ddefnyddwyr bregus yn cael eu hystyried fel y medrant barhau i ymgysylltu â ffyrdd newydd o weithio. Mae'r cynllun yn cydnabod pa mor bwysig yw bod pobl fregus yn gallu defnyddio'r system gyfiawnder heb anfantais na gwahaniaethu iddynt.

Mae mesurau eraill i gynorthwy pobl fregus yn cynnwys Cyfarwyddyd Ymarfer 3AA Rheolau Trefniadaeth Teulu 2010, sy'n nodi bod yn rhaid i'r llys ystyried a yw cyfranogiad 'parti' yn yr achos (heblaw drwy roi tystiolaeth) yn debygol o fod yn llai oherwydd eu bod yn fregus, ac os felly, a oes angen gwneud un neu fwy o gyfarwyddiadau cyfranogi. Yn ogystal, anfonir gwybodaeth at bob 'parti' mewn achos llys teuluol yn egluro sut i ofyn am fesurau arbennig i'w gwarchod. Mae ffurflenni gan y llys yn rhoi manylion am ba fesurau arbennig allai fod ar gael, er enghraifft, drysau mewn ac allan ar wahân, ystafelloedd aros ar wahân, sgriniau diogelu a chyswllt fideo.

Mae gan bob llys hefyd brotocol pobl fregus yn nodi pa drefniadau i'w dilyn i warchod pobl fregus.

## Adran 5

# Gwella parhaus

Ym mhob rhan o'r Datganiad hwn, nodwn yn glir ein hymrwymiad i wella'n barhaus. Mae'r adran yma'n disgrifio ein hamcanion ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22 ynghyd â chynlluniau ychwanegol nad ydynt yn cael eu hadrodd yn rhywle arall.

Mae'r MoJ yn cydnabod ein bod ar gychwyn siwrne ac y byddwn yn parhau i weithio'n gydweithredol gyda thimau ar draws yr adran a gyda'r gadwyn gyflenwi i drechu effeithiau caethwasiaeth fodern dros y 12 mis nesaf. Mae'r meysydd y bwriadwn ganolbwyntio arnynt i gryfhau sut y rheolwn y risg o gaethwasiaeth fodern yn cynnwys:


| Maes | Gwella Parhaus |
|---|---|
| Tîm Merched HMPPS | Ail-gynnull y cyfarfodydd caethwasiaeth fodern sy'n trafod a chodi ymwybyddiaeth ar draws y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a symud ymlaen ar waith i ddatblygu polisi MoJ/HMPPS. |
| Tîm Merched HMPPS | Diwygio'r mapiau proses a'r canllawiau ar MSHT. |
| Tîm Diogelwch Carchardai, HMPPS | Datblygu fframwaith polisi a chanllawiau cysylltiedig yn disgrifio sut y gall ac y dylid cefnogi dioddefwyr troseddau (staff a charcharorion) mewn carchardai, i gynnwys ffocws penodol ar MSHT a 'llinellau cyffuriau'. |
| CCMD - Hyfforddiant | Erbyn diwedd 2021, byddwn wedi adolygu ein hanghenion hyfforddi'n drylwyr a bydd cynllun hyfforddiant caethwasiaeth fodern yn ei le, fydd yn sicrhau bod timau masnachol yn parhau i ddiweddaru eu gwybodaeth am risgiau posib o gaethwasiaeth fodern ac yn gallu hwyluso trafodaethau â chyflenwyr am y broblem. |
| CCMD - Hyfforddiant | Parhau i ddarparu sesiynau ymwybyddiaeth cynefino i bawb sy'n ymuno o'r newydd a chefnogi hyfforddiant gloywi e-ddysgu blynyddol CIPS ar foeseg i staff rheoli contractau a masnachol. Mae staff newydd yn cael eu cynefino wrth ymuno â'r MoJ mewn pa mor bwysig yw adnabod risgiau caethwasiaeth fodern a masnachu pobl a hefyd yn dysgu sut i sicrhau bod risgiau posib o gaethwasiaeth fodern yn cael eu lliniaru. |

| Maes | Gwella Parhaus |
|---|---|
| CCMD | Datblygu canllawiau ychwanegol i dimau masnachol ar ddrafftio cwestiynau ar gaethwasiaeth fodern mewn dogfennau caffael. Bydd hyn yn gwreiddio diwydrwydd dyladwy trylwyr ymhellach ar draws y cylch bywyd masnachol. |
| CCMD | Pob contract arian ac efydd i dderbyn asesiad risg yn defnyddio offeryn blaenoriaethu'r Swyddfa Gartref. Erbyn diwedd 2021 byddwn yn gallu adnabod contractau risg uchel, canolig ac isel (tua 1,200) ac yna'n gallu cynllunio camau priodol i drafod mwy gyda'r cyflenwyr hynny. |
| CCMD | Diweddaru'r canllawiau ar Reoli Contractau i adlewyrchu'r gwaith o asesu risg contractau a thrafod gyda chyflenwyr ar y MSAT. Bydd ein rheolwyr contractau yna'n gallu deall a gwneud y gwaith o geisio trechu caethwasiaeth fodern drwy drafodaethau â chyflenwyr. |
| CCMD | Nodi ar ein system e-gaffael unrhyw gontractau sydd wedi eu blaenoriaethu fel rhai risg uchel neu ganolig o gaethwasiaeth fodern a lle gofynnwyd am y MSAT gan y cyflenwr. Bydd casglu'r data hwn yn gwella gwelededd risg ar draws ein contractau. |
| CCMD | Datblygu prosesau a llwybrau uwchgyfeirio clir lle mae amheuon o gaethwasiaeth fodern neu lle mae'n cael ei adnabod, er mwyn ymchwilio, ymateb a cheisio datrys y broblem yn effeithiol. |
| HMCTS | Mae HMCTS yn datblygu hyfforddiant i swyddogion cyswllt tystion sy'n cynnwys modiwlau ar ddeddfwriaeth ar gyfer dioddefwyr a thystion, plant a phobl ifanc, a mesurau arbennig. Mae'r hyfforddiant yn seiliedig ar y Cod Dioddefwyr ac wedi'i ddylunio'n benodol ar gyfer swyddogion cyswllt tystion sy'n gweithio yn Llys y Goron a'r Llysoedd Ynadon. |
| HMCTS | Mae HMCTS wrthi'n datblygu polisi a chanllawiau ar ddiogelu i staff os oes ganddynt bryderon bod plentyn neu oedolyn bregus yn cael niwed neu mewn perygl o gael niwed. Bydd hyn yn ategu Datganiad Polisi Diogelu newydd yr MoJ. Mae strwythur diogelu 'pobl enwebedig' yn cael ei weithredu gyda hyfforddiant pwrpasol i gynorthwyo ein staff gydag achosion mwy cymhleth. Mae pecyn e-ddysgu diogelu ehangach hefyd yn cael ei greu i godi ymwybyddiaeth o beth yw diogelu, ein cyfrifoldebau a beth i'w wneud os yw problem ddiogelu'n cael ei hadnabod. |
| HMCTS | Mae cynllun peilot yn ei le i hysbysu'r heddlu'n gynnar pan wneir Gorchymyn Anffurfio Organau Rhywiol Merched (FGM) neu Amddiffyn Rhag Priodi Gorfodol. |

# Adran 6
# Cymeradwyo

Mae'r Datganiad hwn wedi cael ei adolygu a'i gymeradwyo gan: aelodau o'r Pwyllgor Gweithredol; Antonia Romeo, Ysgrifennydd Parhaol y Weinyddiaeth Gyfiawnder; a'r Gwir Anrh. Dominic Raab AS, yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder a'r Dirprwy Brif Weinidog.


Cymeradwywyd y Datganiad Caethwasiaeth Fodern hwn gan Dr Jo Farrar, fel Ail Ysgrifennydd Parhaol ar ran Pwyllgor Gweithredol y Weinyddiaeth Gyfiawnder, ar 20 Awst 2021

Llofnod: .....  ...........................

Cymeradwywyd y Datganiad Caethwasiaeth Fodern hwn gan Antonia Romeo, Ysgrifennydd Parhaol y Weinyddiaeth Gyfiawnder, ar 13 Medi 2021

Llofnod: ...  ...................................

Cymeradwywyd y Datganiad Caethwasiaeth Fodern hwn gan y Gwir Anrh. Dominic Raab AS, yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder a'r Dirprwy Brif Weinidog, ar 19 Hydref 2021

Llofnod: ...  ..........

## Atodiad A

# Sefydliadau o Fewn Cwmpas

Cyrff hyd braich yr MoJ gyda chyllidebau o £36m neu fwy a Swyddfa Cymru:

### Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru

Mae Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru'n cynorthwyo Ysgrifennydd Gwladol Cymru i hybu buddiannau Cymru fel rhan o Deyrnas Unedig gref. Ni yw wyneb llywodraeth y DU yng Nghymru a llais Cymru ar draws Whitehall.

Mae'r Swyddfa'n gweithio'n agos ag adrannau eraill o lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid yng Nghymru, i sicrhau bod Cymru wrth galon polisïau a rhaglenni llywodraeth y DU a bod y setliad datganoli yng Nghymru'n gweithio'n effeithiol.

Mae Swyddfa Cymru'n adran fach a'r Weinyddiaeth Cyfiawnder (MoJ) sy'n darparu'r rhan fwyaf o'n gwasanaethau corfforaethol a chymorth gan gynnwys Adnoddau Dynol, TG, cyllid a rheoli cyfleusterau.

Mae gan staff y Gwasanaethau Corfforaethol fynediad at gyrsiau e-ddysgu'r Gwasanaeth Sifil ar briodoldeb, moeseg a rheoleidd-dra, ac ar ba gamau ymarferol y medrant eu cymryd drwy gydol y cylch bywyd masnachol i adnabod a lliniaru yn erbyn y risg o gaethwasiaeth fodern. Mae'r polisïau i gyd yn unol â pholisïau'r MoJ.

Mae gan y Swyddfa bolisi chwythu'r chwiban ar gyfer adrodd amheuon o gaethwasiaeth fodern. Gwneir archwiliadau recriwtio ar bawb sy'n ymuno â'r Gwasanaeth Sifil ac mae'r staff i gyd yn derbyn fetio diogelwch sy'n briodol i'w rôl.

Mae Swyddfa Cymru'n defnyddio contractau'r MoJ ar gyfer y rhan fwyaf o'i gwasanaethau cymorth. Mae rhai eithriadau i hyn lle mae'r Swyddfa wedi prynu nwyddau a gwasanaethau o dan gytundebau fframwaith y llywodraeth:

- Vodafone, i roi mynediad i'r we.
- Custom Security, i gynnal a chadw system teledu cylch-cyfyng y Swyddfa.
- Essex Flags, i godi a gostwng baneri yn ein swyddfa yn Llundain.

Mae gan y cyrff hyd braich canlynol drosiant blynyddol sydd dros y trothwy o £36 miliwn:

### Y Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (Cafcass)

Mae Cafcass yn cynrychioli plant mewn achosion llys teulu yn Lloegr. Gan weithredu o dan reolau a chyfarwyddyd y llysoedd teulu, maen nhw'n annibynnol i'r llysoedd, y gwasanaethau cymdeithasol, addysg ac iechyd a phob asiantaeth arall debyg. Eu dyletswydd yw diogelu a hybu lles plant sy'n mynd drwy'r system cyfiawnder teuluol gan gefnogi dros 140,000 o blant bob blwyddyn.

Mae staff Cafcass sy'n rhan o ddod o hyd i gyflenwyr, gwerthuso tendrau, gweithredu contractau neu reoli contractau'n derbyn hyfforddiant ar-lein ar foeseg, gan gynnwys Caethwasiaeth Fodern gan CIPS. Bydd 40 o staff wedi cwblhau'r hyfforddiant hwn erbyn diwedd Gorffennaf 2021. Mae staff rheng flaen Cafcass hefyd yn cael eu hyfforddi mewn diogelu, gan gynnwys gwneud gwiriadau diogelu ac adnabod risgiau diogelwch a lles i blant. Byddai unrhyw amheuaeth o gaethwasiaeth fodern yn cael

ei gynnwys yn y diogelu. Mae polisi mewnol Cafcass ar chwythu'r chwiban hefyd yn cynnwys unrhyw weithgarwch anghyfreithiol y gall staff ei hysbysu fel tor-deddfwriaeth.

## Government Facilities Services Limited (GFSL)

Mae GFSL yn darparu gwasanaethau cynnal a chadw i garchardai ar draws de Lloegr ac yn helpu HMPPS i leihau aildroseddu drwy roi cyfle i garcharorion ddysgu sgiliau ac ennill profiad gwaith. Yn 2020-21, gwariodd GFSL £81m ar ddarparu'r gwasanaeth hwn. Mae'r MoJ yn rheoli contractau ar ran GFSL ond hefyd yn dechrau dyfarnu eu contractau tymor hirach eu hunain, h.y. i rai gyda dedfrydau o fwy na 12 mis. Mae GFSL wedi darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth o gaethwasiaeth fodern a pha fesurau i'w cymryd, i'w timau masnachol, prosiectau a chadwyni cyflenwi. Mae polisi chwythu'r chwiban GFSL hefyd yn gyfrwng i staff ei ddefnyddio i rybuddio am unrhyw droseddau caethwasiaeth fodern.

## Yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (LAA)

Mae'r LAA yn rhoi cyngor a chymorth cyfreithiol sifil a throseddol yng Nghymru a Lloegr i helpu pobl â'u problemau cyfreithiol.Ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2020/21, roedd gan yr LAA 2,549 o gontractau yn eu lle gyda 2,136 o ddarparwyr. O'r darparwyr hyn, mae tua 94% yn gwmnïau bach neu ganolig a 6% yn fentrau cymdeithasol neu'n fudiadau gwirfoddol a chymunedol.

Mae'n ofynnol i'r darparwyr cymorth cyfreithiol hyn weithredu yng Nghymru a Lloegr lle maen nhw'n darparu eu gwasanaethau. Mae'r darparwyr yn aelodau o gyrff rheoleiddio sy'n gosod ymrwymiadau'n ymwneud ag ymddygiad proffesiynol ar eu haelodau. Mae rhai rheoleiddwyr wedi cyflwyno canllawiau i'w haelodau ar ddelio â chwsmeriaid a allai fod wedi dioddef caethwasiaeth fodern.

Mae gan yr LAA un contract aur ar gyfer gorfodi a chasglu dyledion, wedi'i gaffael gan yr MoJ a'i reoli gan yr LAA. Mae contractau eraill gan yr LAA ac a reolir ganddynt yn cynnwys:

- Gwasanaethau Canolfan Gyswllt – yn darparu Canolfan Alwadau Cyfreithwyr yr Amddiffyniad a'r Gwasanaeth Darparwyr Cyngor Cyfreithiol Cymunedol.
- Adolygu gan Gymheiriaid – contractau gan adolygwyr cymheiriaid i adolygu ffeiliau achos cwmnïau cymorth cyfreithiol; contract gwasanaethau ymgynghori arbenigol ar Adolygu gan Gymheiriaid; a chontract cytundeb trwyddedu byd-eang ar Adolygu gan Gymheiriaid.
- Nod Ansawdd Arbenigol – contract consesiwn i archwilio a dyfarnu'r SQM.

Derbyniodd staff Gwasanaeth yr Amddiffynnydd Cyhoeddus hyfforddiant ar-lein ar y canlynol:

- Beth yw caethwasiaeth fodern, ecsbloetio a masnachu pobl? Beth y mae'n edrych fel, sut i'w adnabod a'r arwyddion bod rhywun yn ei ddioddef.
- Beth yw ymrwymiadau'r DU tuag at ddioddefwyr masnachu pobl o dan Gonfensiwn Cyngor Ewrop 2007 yn erbyn Masnachu mewn Pobl? Mae hyn yn cynnwys:
  - Erthygl 10: Dyletswydd i adnabod a gwarchod - a weithredir drwy'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol; a
  - Erthygl 26: Darpariaeth dim cosbi(lle mae dioddefwyr wedi eu cymell i gyflawni troseddau) – a weithredir drwy'r amddiffyniad yn a45 Deddf Caethwasiaeth Fodern 2010.
- Camau ymarferol i gyfreithwyr os ydynt yn amau bod rhywun yn dioddef caethwasiaeth fodern.
- Enghreifftiau manwl o achosion yn Llys y Goron lle'r oedd caethwasiaeth fodern wedi digwydd.

Mae'r LAA yn cyhoeddi eu datganiad eu hunain ar gaethwasiaeth fodern ym mis Medi 2021.

Mae'r cyrff hyd-braich canlynol gyda chyllideb o lai na £36m yn rhan integredig o ddatganiad yr MoJ;

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Asesydd Annibynnol o Achosion Camweinyddu Cyfiawnder | Penodir yr Asesydd Annibynnol o Iawndal i Achosion Camweinyddu Cyfiawnder gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder o dan adran 133 Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988. Rôl yr Asesydd yw asesu faint o iawndal i'w dalu ar ôl i'r Ysgrifennydd Gwladol benderfynu bod y meini prawf cymhwysedd wedi eu cwrdd. |
| 2 | Pwyllgorau Ymgynghorol ar Ynadon Heddwch (ACJP) | Mae'r ACJP yn cyfweld ymgeiswyr mewn Ardaloedd Cyfiawnder Lleol a gwneud argymhellion i'r Arglwydd Brif Ustus, wedi eu dirprwyo i'r Uwch Farnwr Llywyddol, ar bwy i'w penodi i'w meinciau lleol fel Ynadon Heddwch (ynadon). |
| 4 | Cyngor Cyfiawnder Sifil (CJC) | Corff Cynghori Cyhoeddus yw'r CJC a sefydlwyd o dan Ddeddf Gweithdrefnau Sifil 1997 i fod yn gyfrifol am oruchwylio a chydlynu'r gwaith o foderneiddio'r system gyfiawnder sifil. |
| 5 | Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol (CICA) – Asiantaeth Weithredol | Sefydlwyd y CICA yn 1996 i roi iawndal i ddioddefwyr troseddu lle maen nhw'n ddi-fai. |
| 6 | Y Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Droseddol | Rheolau ar weithdrefnau neu drefniadaeth llysoedd troseddol mewn llysoedd ynadon ac yn Llys y Goron, y Llys Apêl ac, mewn achosion apelio yn erbyn estraddodi, yn yr Uchel Lys. |
| 7 | Y Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Sifil | Sefydlwyd y Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Sifil o dan Ddeddf Trefniadaeth Sifil 1997 i wneud rheolau llys ar gyfer Is-adran Sifil y Llys Apêl, yr Uchel Lys a'r Llys Sirol. |
| 8 | Y Comisiwn Adolygu Achosion Troseddol (CCRC) | Mae'r CCRC yn ymchwilio'n ddi-duedd i amheuon o gamweinyddu cyfiawnder yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, gyda'r pŵer i gyfeirio achosion troseddol yn ôl at lys apêl i gynnal apêl newydd. Mae'r CCRC yn annibynnol i'r llysoedd, yr heddlu, yr erlyniad ac i unigolion sy'n gwneud cais i adolygu eu hachosion. |
| 9 | Y Cyngor Cyfiawnder Teuluol | Prif rôl y Cyngor Cyfiawnder Teuluol yw hyrwyddo dull rhyng-ddisgyblaeth o ddarparu cyfiawnder teuluol. Mae'n monitro pa mor effeithiol y mae'r system cyfiawnder teuluol yn darparu'r gwasanaeth sydd ei angen ar y llywodraeth a'r cyhoedd. |

| | | |
|---|---|---|
| 10 | Y Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Teulu (FPRC) | Mae'r FPRC yn gwneud rheolau llys ar yr ymarfer a'r gweithdrefnau sy'n cael eu dilyn mewn achosion teulu yn yr Uchel Lys a'r Llys Teulu. |
| 12 | Arolygiaeth Carchardai EM ar gyfer Cymru a Lloegr | Mae Arolygiaeth Carchardai EM yn arolygiaeth annibynnol sy'n craffu'n annibynnol ar amodau a thriniaeth carcharorion ac eraill a gedwir dan glo. |
| 13 | Arolygiaeth Prawf EM | Rôl yr arolygydd annibynnol o wasanaethau prawf a throseddwyr ifanc yw hyrwyddo gwelliannau i'r gwasanaethau hyn gan arwain at ganlyniadau gwell i oedolion ar brawf a phlant sydd mewn cysylltiad â'r gwasanaethau troseddwyr ifanc ynghyd â gwybodaeth a chefnogaeth well i ddioddefwyr, a gwarchodaeth well i'r cyhoedd. |
| 14 | Y Panel Cynghori Annibynnol ar Farwolaethau yn y Carchar (IAPDC) | Rôl yr IAPDC, fel corff cyhoeddus di-adrannol a noddir ar-y-cyd gan yr MoJ, y Swyddfa Gartref a'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, yw rhoi cyngor ac arbenigedd annibynnol i'r Bwrdd Gweinidogol ar Farwolaethau yn y Ddalfa, gyda'r prif nod o atal marwolaethau dan glo. |
| 15 | Yr Awdurdod Monitro Annibynnol ar gyfer Cytundebau Hawliau Dinasyddion (IMA) | Mae'r IMA yn gwarchod hawliau dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd, yr EEA a'r EFTA (UE, Gwlad yr Iâ, Liechtenstein a Norwy) yn y Deyrnas Unedig a Gibraltar. |
| 16 | Byrddau Monitro Annibynnol (IMB) | Aelodau annibynnol o'r cyhoedd yw aelodau'r IMB sy'n monitro bywyd dydd i ddydd mewn carchardai lleol, canolfannau cadw, a chyfleusterau cadw pobl dros dro mewn meysydd awyr, i sicrhau bod safonau gofal a pharchusrwydd priodol yn cael eu cynnal. |
| 17 | Y Pwyllgor Rheolau Ansolfedd | Mae'r Pwyllgor Rheolau Ansolfedd yn ystyried diwygiadau i'r rheolau sy'n deillio o adolygu is-ddeddfwriaeth ar ansolfedd gan gyflwyno eu hargymhellion i'r Arglwydd Ganghellor. |
| 18 | Y Comisiwn Penodiadau Barnwrol (JAC) | Mae'r JAC yn dethol ymgeiswyr am swyddi barnwrol yng Nghymru a Lloegr, ac ar gyfer rhai tribiwnlysoedd sydd â phwerau traws-DU. |
| 19 | Y Comisiwn Ymddygiad a Phenodiadau Barnwrol (JACO) | Mae'r JACO yn ymchwilio i sut y deliwyd â chwynion am y broses penodiadau barnwrol a chwynion yn ymwneud ag ymddygiad neu ddisgyblaeth barnwrol. |

| | | |
|---|---|---|
| 20 | Swyddfa Farnwrol Cymru a Lloegr (JO) | Mae'r Swyddfa Farnwrol yn gangen unigryw o'r Gwasanaeth Sifil ac yn annibynnol i'r trefniadau sy'n cefnogi'r llywodraeth gan gefnogi'r farnwriaeth fel trydedd braich y wladwriaeth.<br>Rydym yn hyrwyddo a diogelu annibyniaeth barnwrol er mwyn cynnal hyder yn rheol y gyfraith. |
| 21 | Comisiwn y Gyfraith | Mae Comisiwn y Gyfraith yn gorff annibynnol statudol a'i amcanion yw:<br>• sicrhau bod y gyfraith mor deg, modern, syml a chost-effeithiol â phosib<br>• cynnal ymchwil ac ymgynghori i wneud argymhellion i'w hystyried gan y Senedd<br>• codeiddio'r gyfraith, dileu anghysondebau, diddymu deddfwriaeth diangen ac sydd wedi darfod a lleihau nifer y statudau ar wahân |
| 22 | Sylwedyddion Lleyg (LO) | Penodeion cyhoeddus, annibynnol a di-dâl yw sylwedyddion lleyg a benodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder o dan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1991. Mae ganddynt ddyletswydd i archwilio o dan ba amodau y cludir neu y cedwir pobl gan gontractwyr hebrwng a charchardai yng Nghymru a Lloegr. |
| 24 | Y Bwrdd Gwasanaethau Cyfreithiol (LSB) | Mae rôl a chyfrifoldebau'r LSB yn cynnwys:<br>• rheoleiddio rheoleiddwyr (cyrff rheoleiddio) cymeradwy a'r Tribiwnlys Disgyblu Cyfreithwyr<br>• goruchwylio'r Swyddfa Cwynion Cyfreithiol (cyfrifol am weinyddu cynllun yr Ombwdsmon Cyfreithiol)<br>• gwneud argymhellion i ddiwygio'r rhestr o weithgareddau cyfreithiol wedi eu neilltuo<br>• sefydlu trefniadau gwirfoddol i wella safonau |
| 25 | Yr Ombwdsmon Cyfreithiol | Sefydlwyd yr Ombwdsmon Cyfreithiol gan y Swyddfa Cwynion Cyfreithiol o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cyfreithiol i helpu i ddatrys anghydfod rhwng defnyddwyr a darparwyr gwasanaethau cyfreithiol. |
| 26 | Y Cyfreithiwr Swyddogol a'r Ymddiriedolwr Cyhoeddus (OSPT) | Mae'r OSPT yn helpu pobl sy'n fregus oherwydd diffyg galluedd meddyliol neu oedran ifanc, i fanteisio ar y gwasanaethau a gynigir gan y system gyfiawnder, gan eu helpu i osgoi cael eu heithrio'n gymdeithasol. |
| 27 | OPG | Mae'r OPG yn helpu pobl yng Nghymru a Lloegr i barhau i wneud eu penderfyniadau eu hunain am eu hiechyd a'u harian ac i wneud penderfyniadau pwysig dros eraill na fedrant benderfynu drostynt eu hunain. |

| | | |
|---|---|---|
| 28 | Y Bwrdd Parôl | Mae'r Bwrdd Parôl yn gorff annibynnol sy'n cynnal asesiadau risg o garcharorion er mwyn penderfynu a ellir eu rhyddhau'n ddiogel i'r gymuned. |

| | | |
|---|---|---|
| 29 | Yr Ombwdsmon Carchardai a Phrawf (PPO) | Mae'r PPO yn cynnal ymchwiliadau annibynnol i wneud goruchwylio yn y carchar a'r gymuned yn fwy diogel a thecach. |
| 30 | Corff Adolygu Cyflogau'r Gwasanaeth Carchardai | Mae Corff Adolygu Cyflogau'r Gwasanaeth Carchardai'n rhoi cyngor annibynnol ar gyflogau a thâl llywodraethwyr carchardai, rheolwyr, swyddogion a staff cymorth carchardai yng Ngwasanaeth Carchardai Cymru a Lloegr, ac ar swyddi cyfatebol yng Ngwasanaeth Carchardai Gogledd Iwerddon. |
| 31 | Cyngor Dedfrydu Cymru a Lloegr | Sefydlwyd Cyngor Dedfrydu Cymru a Lloegr i hyrwyddo bod yn fwy agored a chyson wrth ddedfrydu ond drwy gynnal annibyniaeth y farnwriaeth. Eu prif rôl yw cyhoeddi canllawiau ar ddedfrydu sy'n rhaid i'r llysoedd eu dilyn oni bai ei bod er budd i gyfiawnder nad ydynt yn gwneud hynny. |
| 32 | Y Pwyllgor Trefniadaeth Tribiwnlysoedd | Mae'r Pwyllgor Trefniadaeth Tribiwnlysoedd yn gwneud rheolau ar ymarfer a threfniadaeth (gweithdrefnau) yn y Tribiwnlys Haen Gyntaf a'r Uwch Dribiwnlys. |
| 33 | Y Comisiynydd Dioddefwyr | Mae'r Comisiynydd Dioddefwyr yn cynrychioli barn ac anghenion dioddefwyr a thystion, ymchwilio i wasanaethau dioddefwyr a chynhyrchu adolygiadau cynhwysfawr gan hefyd fonitro sut y mae asiantaethau cymorth dioddefwyr yn cydymffurfio â'r Cod Dioddefwyr a'r Siarter Tystion i annog ymarfer da. |
| 34 | Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr (YJB) | Mae'r YJB ar gyfer Cymru a Lloegr yn gorff cyhoeddus di-adrannol annibynnol a sefydlwyd gan Ddeddf Troseddu ac Anhrefn 1998. Penodir y Bwrdd gan yr Ysgrifennydd Gwladol i fod yn gyfrifol am oruchwylio sut y mae'r system cyfiawnder ieuenctid yn gweithio a sut y mae gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid yn cael eu darparu – yr unig gorff statudol gyda goruchwyliaeth o'r system gyfan. |